# Tystlythyr

Ysgol y Llan, Llanfair, LL14 1TD
Ffôn: 0567 333 4444
Gwefan: ysgolyllan@llanfair.ac.uk

Pennaeth: J. Williams M.A.

16 Hydref

Y Rheolwr
Canolfan awyr agored Maes Llan
Llanfair
LL56 4PT

Annwyl Reolwr

Mae'n bleser gennyf gefnogi cais Lyn Jones ar gyfer y swydd **Trefnydd Gweithgareddau Awyr Agored** yn eich canolfan.

Deuthum i adnabod Lyn gyntaf pan oedd ym Mlwyddyn 11. Er na fûm yn ei dysgu ar gyfer TGAU na Safon Uwch, gwn, o siarad gydag athrawon eraill, ei bod wedi bod yn ddisgybl cydwybodol a chwrtais drwy gydol ei hamser yn yr ysgol hon. Deuthum i gysylltiad â hi pan oedd hi'n gwneud y Fagloriaeth Gymraeg, gan fy mod yn diwtor arni ar gyfer y cymhwyster hwn.

Sylwais ar unwaith ei bod yn arweinydd naturiol. Cafodd ei hethol yn gadeirydd y grŵp gan ei chyd-ddisgyblion ac mae hyn yn tystio i'r ffaith eu bod nhw'n ei pharchu ac yn ei hystyried yn arweinydd. Fel cadeirydd, bu'n gyfrifol am ysbrydoli ac arwain y grŵp wrth iddo drefnu gweithgareddau gwirfoddol yn y gymuned, fel darllen newyddion ar gyfer papur y deillion, cynnal ymgyrch i glirio'r parc lleol a chodi arian at elusen pobl ddigartref. Yn ogystal, bu'n gyfrifol am drefnu gweithgareddau yn yr ysgol a oedd yn hybu'r iaith Gymraeg, fel cynnal sesiynau pêl-rwyd a gymnasteg Cymraeg yn ystod yr awr ginio a mentora dysgwyr ym Mlynyddoedd 7 ac 8 drwy gynnal sesiynau 'Hwyl a Holi' amser cinio. Bu'n gyfrifol am olygu tudalen arbennig yn y papur bro bob mis hefyd.

Deallaf fod Lyn wedi bod yn aelod ffyddlon o'r timau pêl-droed a phêl-rwyd yn yr ysgol a'i bod hefyd yn hyfforddi timau pêl-droed merched yng Nghlwb Pêl-droed y dref. Mae hi wedi cael cyfle i feithrin sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer y swydd hon, felly, sef sefydlu perthynas â phlant a phobl ifanc a'u hyfforddi.

Ar ôl gadael yr ysgol, aeth ymlaen i brifysgol Lerpwl lle bu'n dilyn cwrs Addysg Gorfforol. Tra oedd hi yno, deallaf ei bod wedi bod yn aelod o dimau chawraeon a'i bod wedi parhau i hyfforddi pobl ifanc. Deallaf iddi weithio dros yr haf mewn canolfan awyr agored yng Ngogledd Cymru hefyd, a'i bod wedi bod ar brofiad gwaith mewn canolfan chwaraeon eithafol yn Ne Cymru, sy'n brawf ei bod yn barod i wynebu unrhyw her heb ofn!

Ar ôl gadael y brifysgol, cafodd Lyn a deg o bobl ifanc o'r dref gyfle i fynd i'r Wcráin am chwe mis i helpu i ail-adeiladu cartref ar gyfer plant amddifad. Mae warden y cartref yn hen ffrind i mi ac ysgrifennodd ataf ar ôl ei chyfnod yno i ddiolch i mi am drefnu i rywun 'mor aeddfed a sensitif' fynd yno i helpu. Mae'n amlwg ei bod wedi creu argraff dda ar y bobl oedd yn rhedeg y cartref. Tra oedd hi yno, bu wrthi'n ddyfal yn peintio ac yn glanhau a deallaf iddi wneud llawer o ffrindiau ymhlith y plant bach oedd yn byw yno. Mae'n amlwg, felly, ei bod yn barod i droi ei llaw at unrhyw waith - a'i gyflawni'n ddi-ffwdan – a'i bod hefyd yn gallu sefydlu perthynas dda gyda phobl o bob oed.

Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth o ran cefnogi cais Lyn ar gyfer y swydd hon. Petai'n cael ei phenodi, gwn y byddai'n gweithio mewn modd aeddfed, trefnus a hollol broffesiynol. Mae ganddi lawer i'w gynnig i'r swydd a gwn y byddai'n esiampl wych i'r plant a'r bobl ifanc fydd yn dod i'r ganolfan.

Yn gywir,

Janet Williams